# CABINET

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Llun, 15 Hydref 2018 am 4.00 pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Meirick Davies, Mabon Ap Gwynfor, Alan James, Arwel Roberts, Peter Scott, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Graham Timms ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus (GB); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW) a Chyllid/Swyddog Adran 151 (RW); Swyddog Arweiniol - Eiddo Corfforaethol a Stoc Dai (DL); Rheolwr Prosiect (KW); Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai (AL) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 BARGEN DWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU: DOGFEN GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y Ddogfen Gynnig ar gyfer argymhelliad i’r Cyngor ei mabwysiadu a rhoi awdurdod i’r Arweinydd ymrwymo’r Cyngor, ynghyd â’i bartneriaid, i fod yn rhan o gytundeb penawdau'r telerau gyda Llywodraethau Cymru a’r DU. Eglurodd yr angen i ystyried yr adroddiad ar gam cynharach er mwyn i’r Canghellor allu cynnwys cyfeiriad at y Fargen Dwf yn Natganiad Yr Hydref ar 29 Hydref 2018.

Darparwyd rhywfaint o wybodaeth gefndir ynglŷn â chymeradwyaeth cydweithrediadau yn flaenorol er mwyn mabwysiadu'r Weledigaeth Dwf a datblygu Cynnig Bargen Twf ar gyfer y rhanbarth. Roedd y Ddogfen Gynnig yn nodi'r rhaglenni blaenoriaeth gweithgaredd a phrosiectau i'w hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y Fargen Dwf yng ngham Penawdau'r Telerau ac roedd gofyn am gymeradwyaeth gan y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru fel y cam nesaf yn y broses. Pwysleisiwyd nad oedd mabwysiadu yn rhwymo'r Cyngor i wneud unrhyw fuddsoddiad ariannol ei hun am y tro, ac roedd yn amodol ar risgiau a manteision ariannol y Fargen Dwf derfynol yn cael eu nodi yn fanwl a'u hystyried yn llawn pan fo'r Fargen derfynol yn cael ei chyflwyno er cymeradwyaeth yn y dyfodol.

Dadleuodd yr Arweinydd mai'r Ddogfen Gynnig oedd y cyfle gorau i ehangu economi Gogledd Cymru a chystadlu â rhanbarthau eraill gan dynnu sylw at yr effaith bosibl ar Sir Ddinbych yn benodol. Tynnwyd sylw hefyd at ba mor bwysig yw i Sir Ddinbych gyd-fynd â chynlluniau a strategaethau economaidd eraill drwy'r Fargen Dwf a nodwyd bod y Ddogfen Gynnig yn ddibynnol ar gyflawni strategaethau buddsoddi mewn ffyrdd a rheilffyrdd eraill megis Growth Track 360 a Rhaglen Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru. Tynnodd yr Arweinydd sylw at ymrwymiad Llywodraethau Cymru a'r DU i fuddsoddi yn y fargen dwf ac fe dynnodd sylw at y berthynas ardderchog rhwng Arweinwyr y Cynghorau mewn partneriaeth ag addysg uwch ac addysg bellach a'r sector preifat a oedd wedi dangos hyder yn hynny o beth. Unwaith y bydd maint posibl a chynnwys y Fargen Dwf yn hysbys, yn dilyn cytundeb Penawdau'r Telerau, gellir cynnal asesiad risg a dadansoddiad cost a budd llawn. Byddai hyn ar gael ar gyfer gwneud penderfyniad cyn i'r rhanbarth ymrwymo yn ystod cam terfynol cytundeb Bargen Dwf yn hwyrach yn 2019. Mae dadansoddi risg wedi'i gynnwys yn y modelu achos busnes ar gyfer y rhaglenni a phrosiectau sy'n rhan o'r Cynnig datblygu. Roedd gan bob prosiect a restrwyd yn y Ddogfen Gynnig achos busnes amlinellol i ddangos eu gwerth. Roedd materion pwysig eraill i'w nodi yn cynnwys -

- bod yr achosion busnes amlinellol yn cael eu hadolygu gan weision sifil yng Nghaerdydd ac Abertawe ar hyn o bryd.
- bod grŵp rhan-ddeiliaid ar gyfer y sector preifat wedi'i sefydlu a bod sesiynau herio wedi'u cynnal o fewn y rhanbarth.
- bod amserlen risg yn cael ei datblygu fel rhan o'r cam nesaf – byddai ymrwymiadau ariannol y Cyngor yn dod yn amlycach dros y misoedd nesaf pan fo maint ymrwymiad ariannol y ddwy Lywodraeth yn hysbys.
- pe bai Sir Ddinbych yn cymryd rhan yn y Fargen Dwf byddai cyfleoedd pellach yn Brexit i ymgysylltu'r rhanbarth â'r Gronfa Ffyniant.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Parth Cyhoeddus bwrpas y Ddogfen Gynnig i osod pecyn o fesurau ac ymyriadau mentrus er mwyn darparu twf economaidd cynaliadwy yng Ngogledd Cymru. Yna, fe arweiniodd aelodau'r Cabinet drwy'r Ddogfen Gynnig a phwyntiau perthnasol o ran gosod yr achos ar gyfer buddsoddi; cyd-destun strategol a chyd- fynd â pholisi llywodraeth; gwerthusiad dewisiadau a'r ffordd ymlaen a ffefrir; Gweledigaeth Twf, rhestr amserlen prosiect; achos economaidd, cyllid a chyllido, grymuso'r rhanbarth a'r strwythur darparu a llywodraethu. Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Bargeinion Twf o fewn ardaloedd eraill yn y DU wedi arwain at fuddsoddiad sylweddol ac roedd gan Sir Ddinbych gyfle gwych, drwy'r Cynnig Twf, i sicrhau buddsoddiad yn y

meysydd a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol gan gynnwys cludiant, digidol, datblygu busnes a dysgu a sgiliau.

Roedd y Cabinet yn cydnabod y manteision o symud ymlaen â'r Cynnig Twf ac wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y materion canlynol –

- o ran ymrwymiad ariannol, cafwyd sicrwydd nad oedd y Cyngor yn ymrwymo adnoddau cyllid ychwanegol yn ystod y cam hwn o'r broses.
- pe bai'r Cynnig yn llwyddiannus, byddai manylion yr ymrwymiadau ariannol sy'n ofynnol gan awdurdodau lleol unigol er mwyn bod yn rhan o'r Fargen Dwf, yn hysbys ym mis Chwefror/ Mawrth 2019 a byddai'n dibynnu ar swm a sicrhawyd drwy fuddsoddiad y Llywodraeth.
- os, wrth ystyried yr ymrwymiadau ariannol, oedd y Cyngor o'r farn bod y risgiau yn rhy uchel ac nad oedd y buddion ar gyfer Sir Ddinbych neu'r buddion lleol i'r economi ehangach yn cyfiawnhau'r lefel o fuddsoddiad gan lywodraeth leol, yna byddai modd gwneud penderfyniad i beidio ag ymrwymo'r arian hwnnw ac i beidio â chymryd rhan yn y Fargen Dwf.
- cyfeiriwyd at Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan a'r goblygiadau pe bai statws y safle'n newid yn dilyn adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol- eglurwyd bod y safle'n cael ei adnabod fel Safle Strategol Allweddol yn rhanbarthol a byddai modd ei ariannu yn ddibynnol ar broses o flaenoriaethu. Pe bai cyllid yn dod ar gael ond nid yw'r safle bellach wedi'i ddyrannu o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ni fyddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio.
- cydnabuwyd bod angen amlygu'r effaith ar ardaloedd gwledig ac roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt yn hynny o beth. Fodd bynnag, roedd prosiectau penodol a fyddai'n cael effaith uniongyrchol yn cynnwys digidol, ynni a sgiliau ac roedd buddion ehangach i gymunedau yn sgil y Fargen Dwf yn cynnwys effeithiau cadarnhaol o ran materion diweithdra, gofal iechyd, gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl.
- tynnwyd sylw at bwysigrwydd a graddfa cyfranogiad a buddsoddiad y sector preifat yn y Fargen Dwf a nodwyd bod trafodaethau â'r sector preifat yn parhau yn hynny o beth - roedd cynrychiolydd o'r sector preifat ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a sefydlwyd Grŵp Rhanddeiliaid yn cynnwys y sector preifat er mwyn symud ymlaen â disgwyliadau.
- eglurwyd bod y prosiectau a flaenoriaethwyd yn y Ddogfen Gynnig yn cael eu hasesu ar hyn o bryd a byddent yn amodol ar drafodaethau pellach â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU – er y byddai'n rhy hwyr i gyflwyno prosiectau newydd fel rhan o'r Fargen Dwf byddai posibilrwydd i'w hystyried fel rhan o'r Weledigaeth Dwf.

Atebodd yr Arweinydd a'r swyddogion gwestiynau pellach gan aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet fel a ganlyn –

- cyfeiriwyd at yr anawsterau o ran rhagweld y goblygiadau ariannol o ystyried nad yw nifer na chost y prosiectau wedi'u cymeradwyo, cyfraniadau partneriaid eraill a rhagdybiaethau y bydd rhai prosiectau yn creu refeniw yn y dyfodol - o ganlyniad darparwyd ystod o amcangyfrifon gyda chafeatau trwm a chost rhwng £130k £320k ar gyfer Sir Ddinbych yn dibynnu ar ystod o amrywiaethau a dros gyfod o £1m mlynedd gallai hyn amrywio o ddim costau i dros o gostau - o ystyried yr ansicrwydd hwn dylid nodi'r goblygiadau ariannol ar y cam hwn.

- cyfeiriwyd at sesiynau Briffio'r Cyngor ar y Cynnig Twf ac adroddiadau blaenorol i'r Cabinet yn hynny o beth ac fe gadarnhawyd bod adroddiad tebyg wedi'i gyflwyno i bob un o awdurdodau lleol Gogledd Cymru er cysondeb ar draws y rhanbarth.
- eglurwyd cyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol o ran Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan gan gadarnhau bod y pwerau cynllunio yn parhau i fod â'r awdurdod lleol ac nad oedd cynnig o fewn y Ddogfen Gynnig am awdurdod cynllunio rhanbarthol - byddai prosiectau o fewn y Cynnig Twf yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu Lleol presennol a byddai'n rhaid ystyried unrhyw newid i hynny ar yr adeg briodol.
- darparwyd sicrwydd y byddai'r risg a'r effaith ar yr iaith Gymraeg yn cael eu hystyried a disgwyliwyd y byddai'r elfen hon hefyd yn cael ei hystyried fel rhan o ddyraniadau cyllid Llywodraeth Cymru.
- eglurwyd y trefniadau craffu lleol ar gyfer cam cyntaf y Cytundeb Llywodraethu ynghyd ag opsiynau craffu posibl os bydd ail gam i'r Cytundeb Llywodraethu a allai gynnwys craffu ar y cyd, gweithgaredd craffu wedi'i gydlynu ar draws y chwe' chyngor a'u trefniadau unigol eu hunain, neu groesiad o hynny.
- mynegwyd peth pryder o ran prosiectau'n ymwneud â thechnoleg niwclear ac eglurwyd nad oedd Prosiect Wylfa yn rhan o'r Fargen Dwf ac roedd y Rhaglen Mynediad at Ynni SMART, yn cynnwys pecyn o brosiectau a oedd yn derbyn y byddai technoleg niwclear yn rhan o gynhyrchiant ynni'r DU ond roedd hefyd yn cydnabod y prosiectau carbon isel a oedd yn cael eu dwyn ymlaen. Roedd y ddau brosiect niwclear yn ymwneud â Gorsaf Bŵer a Chanolfan Ragoriaeth Niwclear Trawsfynydd yn dod i gyfanswm o oddeutu £38.6m o'r £335m o fuddsoddiad cyfalaf a geisiwyd gan y ddwy Lywodraeth, ac felly nid oeddent yn cael eu hystyried yn rhagfarnllyd tuag at ynni niwclear. O ran y cyd-destun gwleidyddol bu peth cefnogaeth trawsbleidiol ar gyfer y Prosiect Wylfa yn lleol ac yn genedlaethol.

***PENDERFYNWYD –***

*(a)* *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Ddogfen Gynnig ac yn argymell bod y Cyngor yn ei mabwysiadu fel (1) y sail ar gyfer strategaeth ranbarthol fwy hirdymor ar gyfer twf economaidd a (2) y cais rhanbarthol ar gyfer rhaglenni a phrosiectau â blaenoriaeth, a fydd yn sail ar gyfer cynnwys y Fargen Twf a lunnir wrth gytuno ar Benawdau Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth. Nid yw mabwysiadu'r ddogfen yn rhwymo'r Cyngor i wneud unrhyw fuddsoddiad ariannol ei hun am y tro, ac mae'n amodol ar bennu risgiau a manteision y Fargen Dwf derfynol yn fanwl a'u hystyried yn llawn cyn cyflwyno'r Fargen derfynol er cymeradwyaeth faes o law; ac*

*(b)* *awdurdodi'r Arweinydd i ymrwymo'r Cyngor i gytuno ar Benawdau Telerau â'r ddwy Lywodraeth, ar y cyd ag arweinwyr gwleidyddol a phroffesiynol y naw partner statudol arall sydd â chynrychiolaeth ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a Chyngor Busnes Gogledd Cymru, Mersi a Dyfrdwy, o fewn y ffiniau hynny a bennir yn y Ddogfen Gynnig.*

## 5 EITEMAU O'R PWYLLGORAU CRAFFU

Cyflwynodd y Cynghorydd Graham Timms, Is -Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad, yr adroddiad yn nodi casgliadau'r Pwyllgor Craffu yn dilyn ystyriaeth o alw i mewn penderfyniadau'r Cabinet ar 25 Medi 2018 mewn perthynas â darpariaeth Safle i Sipsiwn a Theithwyr.

Yn gryno, er y cydnabuwyd bod y Cabinet wedi derbyn a thrafod gwybodaeth bellach trwy sesiynau Briffio'r Cabinet, roedd y Pwyllgor Craffu o'r farn na ddarparwyd digon o wybodaeth er cymhariaeth yn yr adroddiad i'r Cabinet ar 25 Medi 2018 i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'r safle fwyaf addas. O ganlyniad, gofynnwyd i'r Cabinet ailymweld â'i benderfyniad gan ystyried yr wybodaeth ychwanegol yn cynnwys data cymharol ar gyfer bob safle a'r rhesymau pam fod lleoliadau, a oedd wedi'u cynnwys ar restr gynharach o safleoedd posibl, wedi'u diystyru. Hefyd, roedd y Pwyllgor Craffu o'r farn y dylai'r Cabinet fod wedi cyfeirio'r mater at sesiwn Briffio'r Cyngor fel y gallasai mwy o aelodau gyfrannu cyn gwneud penderfyniad ffurfiol ac argymhellwyd bod yr arfer hwn yn cael ei ddilyn wrth ystyried penderfyniadau a allai fod yn ddadleuol yn y dyfodol. Mynegodd y Cynghorydd Timms ei farn ar amseriad adolygiad y Cabinet o'r penderfyniad ac roedd yn credu'n gryf, oherwydd y byr rybudd ac argaeledd yr wybodaeth ychwanegol a geisiwyd gan y Pwyllgor Craffu yn yr achos hwn, nad oedd digon o amser i'r holl gynghorwyr brosesu'r wybodaeth a gwneud trefniadau i fynychu a gofyn cwestiynau yn ystod cyfarfod y Cabinet. Felly, anogodd y Cabinet i ailystyried ei benderfyniad ar y mater hwn yn ystod ei gyfarfod nesaf ar 30 Hydref 2018 a fyddai'n dangos bod y Cabinet wedi llwyr ystyried argymhellion y Pwyllgor Craffu.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd sut yr oedd darpariaethau'r ddeddfwriaeth hysbysiad cyhoeddus o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wedi'u cyflawni a nododd fanylion am reolau galw i mewn y Cyfansoddiad. Yn dilyn ystyried argymhellion y Pwyllgor Craffu, efallai y bydd y Cabinet yn ystyried adolygu'r penderfyniad yn ystod y cyfarfod hwn neu gyfarfod yn y dyfodol. Darparodd yr Aelod Arweiniol, Y Cynghorydd Tony Thomas, wybodaeth gefndirol bellach gan ddweud bod y prosiect wedi bod yn mynd rhagddo ers peth amser ac nid oedd erioed wedi'i alw i'r Pwyllgor Craffu er i aelodau'r Cabinet gadarnhau bod yn well ganddynt safle ym mis Ebrill 2018. Ar ôl ystyried y materion a godwyd gan y Pwyllgor Craffu ac o ystyried bod yr wybodaeth yr oeddent wedi'i cheisio wedi'i darparu, cynigodd y Cynghorydd Thomas bod y Cabinet yn adolygu ei benderfyniad heb oedi, eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill. Ar sail hynny, ceisiodd yr Arweinydd gadarnhad bod y Cabinet yn fodlon bod modd iddo wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ac yn dilyn pleidlais ***PENDERFNWYD YN UNOL Â HYNNY.*** Fe ymatalodd y Cynghorydd Richard Mainon rhag pleidleisio ar y cynnig hwnnw.

Cyn adolygu'r penderfyniad, cyfeiriodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts at argymhelliad 3.3 y Pwyllgor Craffu, sef i'r holl gynghorwyr gael eu briffio ar benderfyniadau a allai fod yn ddadleuol yn ystod sesiynau Briffio'r Cyngor, cefnogodd y Cabinet ei gynnig am ddiwygiad i gynnwys dulliau briffio eraill fel y bo'n briodol, yn cynnwys y Pwyllgor Craffu, Grwpiau Ardal Yr Aelodau neu weithdai/ digwyddiadau hyfforddiant.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Er mwyn ailymweld â'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 25 Medi 2018 ac ystyried manylion yr atodiadau cyfrinachol -

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

Atgoffodd y Swyddog Arweiniol - Eiddo Corfforaethol a Stoc Dai y Cabinet o gyfrifoldebau statudol y Cyngor i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer darparu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a manylodd ar y broses hirfaith a chynhwysfawr i ddewis ac asesu safle gan arwain at y sefyllfa bresennol. Tynnwyd sylw'r Cabinet at yr wybodaeth ychwanegol a geisiwyd gan y Pwyllgor Craffu a manylodd y Swyddog Arweiniol ar y manteision a'r anfanteision o bob safle a'r rhesymeg y tu ôl i'r cynnig ar gyfer y safle Greengates yn hytrach na'r safleoedd posib eraill a nodwyd i ddechrau a rhoddwyd y cyfle i aelodau ofyn cwestiynau wedi hynny.

Diolchodd y Cynghorydd Peter Scott (Aelod Lleol Llanelwy) i'r Pwyllgor Craffu am eu gwaith ond roedd wedi'i siomi nad oedd yr ystyriaeth ar gyfer y penderfyniad wedi'i gohirio tan gyfarfod nesaf y Cabinet yn unol â chais y Cynghorydd Timms. Roedd y Cynghorydd Scott hefyd o'r farn bod peth o'r wybodaeth o fewn y tabl manteision ac anfanteision yn oddrychol ac roedd hefyd yn pryderu nad oedd ymgynghoriad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid wedi'i gynnal ymlaen llaw. Ceisiodd sicrwydd y byddai unrhyw broses yn y dyfodol yn cynnwys proses ymgynghori helaeth a chadarn. Ymatebodd y Swyddogion, o ystyried yr elfen o gyfrinachedd a'r broses i'w dilyn ni fyddai'n briodol ymgynghori ar ystod o safleoedd posibl yn ystod y broses ddethol. Fodd bynnag, roedd y Cabinet o'r farn y byddai gwerth mewn ymestyn y gofynion ymgynghori cyn cynllunio statudol, o ystyried natur y cynnig ac fe gytunodd i gynnwys yr elfen hon yn ei benderfyniad. Awgrymodd y Cynghorydd Richard Mainon y dylid cynnal prosesau tebyg yn fwy gwrthrychol yn y dyfodol, gyda meini prawf allweddol a mecanweithiau sgorio yn seiliedig ar ffaith er mwyn cael gwared ar yr elfen oddrychol a godwyd yn yr achos hwn. Roedd y Cynghorydd Glenn Swingler yn bryderus, er bod gwybodaeth ychwanegol wedi'i darparu o ran y manteision a'r anfanteision ar gyfer bob safle, roedd sawl enghraifft lle nad oeddent wedi'u cymhwyso'n gyson i bob safle ar sail gymharol.

Nododd y Cabinet y broses faith a ddilynwyd i gyrraedd y cam hwn ac ystyriodd bod yr wybodaeth yn darparu rhesymau clir o ran pam yr oedd safleoedd wedi'u barnu'n anaddas a'u diystyru. Ar ôl ystyried casgliadau'r Pwyllgor Craffu a'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd, roedd y Cabinet yn fodlon bod modd gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ac felly -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) yn cydnabod casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn sgil ei adolygiad o benderfyniadau'r Cabinet ar 25 Medi 2018;*

*(b)* *ar ôl ystyried argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd yn y cyfarfod, yn cadarnhau'r penderfyniadau a wnaethpwyd ar 25 Medi 2018, sef –*

*(i) cymeradwyo cynnal ymgynghoriad cyn cynllunio a cheisiadau cynllunio llawn dilynol (gan ystyried canlyniadau'r ymarfer cyn cynllunio) ar gyfer safleoedd preswyl a theithiol Sipsiwn a Theithwyr ar y safle 'Green-gates Farm East' yn y lleoliadau a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, a*

*(ii) cymeradwyo cyflwyno ceisiadau cyllid i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynigion ar gyfer safleoedd preswyl a/neu Sipsiwn a Theithwyr yn amodol ar roi caniatâd cynllunio yn unol â'r rhaglen a amlinellwyd ym mharagraff 4.11 o'r adroddiad."*

*(c)* *bod yr Aelod Arweiniol yn meithrin cyswllt â'r Aelodau Lleol i gytuno ar y dull mwyaf priodol o ymgynghori â'r gymuned yn y cyfnod cyn cynllunio, ac*

*(d)* *o ran pob mater a ddaw gerbron y Cabinet er penderfyniad, bod yr Aelodau Arweiniol yn awr ac yn y dyfodol yn ystyried yr angen i friffio'r Aelodau eraill ac ymgysylltu â hwy, ac y gallai'r ffordd fwyaf priodol a chymesur o wneud hynny gynnwys Briffio'r Cyngor, Pwyllgor Craffu neu weithdai/sesiynau hyfforddiant.*

Pleidleisiodd y Cynghorydd Richard Mainon yn erbyn penderfyniad (b) uchod.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.10pm.